Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyfarwyddyd

3. Ymgysylltiad: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Cynnwys

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn 2
- **1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru? 3**
- **1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010 3**
- **1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol? 3**

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru 4
- **2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol? 4**
- **2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu? 4**

3. Ymgysylltiad 5
- **3.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran ymgysylltiad 5**

4. Beth yw ymgysylltiad? 6

5. Ymgysylltiad effeithiol 6

6. Pwy i ymgysylltu â nhw 7

7. Pryd i ymgysylltu 8

8. Manteision ymgysylltu 8

9. Sut i ymgysylltu 9

Atodiad A: Dulliau ymgysylltu 10

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn

Dyddiadau allweddol ar gyfer dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

5 Ebrill 2011	Dyletswydd gyffredinol yn dod i rym
6 Ebrill 2011	Dyletswyddau penodol yng Nghymru yn dod i rym
2 Ebrill 2012	Cyrff rhestredig yng Nghymru i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
2 Ebrill 2012	Rhaid bod cyrff rhestredig yng Nghymru wedi ymgysylltu â phobl â diddordeb fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth berthnasol i asesu eu gweithgareddau yn erbyn y ddyletswydd gyffredinol. Rhaid cyhoeddi gwybodaeth berthnasol fel y bo'n briodol.

1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru?

I ddibenion y canllaw hwn, mae awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru (neu 'gorff rhestredig') yn un sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 2 Atodlen 19 y Ddeddf fel y'i hategwyd a'i haddaswyd gan Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol, cyrff addysg (yn cynnwys ysgolion), cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru.

1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010

Daw Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) a deddfau gwrthwahaniaethu blaenorol ynghyd mewn un Ddeddf sy'n eu disodli. Mae'n symleiddio a chryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ar anghysonderau ac yn ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â'r gofynion. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys **dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus** newydd (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle dyletswyddau unigol ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhyw. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys yng nghynllun, polisïau a chyflawniad gwasanaeth a'u bod yn cael eu cadw dan arolwg. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y tair elfen hyn fel tri 'nod' y ddyletswydd gyffredinol ac felly pan fyddwn yn trafod y ddyletswydd gyffredinol, rydym yn golygu'r tri nod.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond parthed y gofyniad i roi sylw priodol i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu.

Mae'r canllaw hwn ar adegau yn defnyddio'r ymadrodd 'grŵp gwarchodedig' i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Diben eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig yn eu perfformiad o'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol?

Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sydd wedi eu cynnwys dan y ddyletswydd gyffredinol hefyd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru gymryd er mwyn arddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o ganllawiau anstatudol ar y dyletswyddau penodol.

Mae'r dyletswyddau'n cysylltu â'i gilydd a gellir canfod mwy o fanylion am bob agwedd yn y canllawiau canlynol:

1. Y canllaw hanfodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (trosolwg)
2. Amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
3. Ymgysylltiad
4. Asesu effaith
5. Gwybodaeth am gydraddoldeb
6. Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
7. Caffael
8. Adrodd blynyddol, cyhoeddi a dyletswyddau gweinidogol (yn cynnwys arolwg a hygyrchedd)

2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu?

Mae'r canllaw anstatudol wedi ei ddatblygu'n bennaf i'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r dyletswyddau penodol i Gymru, yn arbennig y rhai ar lefel uwch a gweithredol sy'n gyfrifol am bolisi a gwneud penderfyniadau. Bydd y canllaw hefyd yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith a gweithgareddau awdurdodau cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod swyddogion uwch sy'n gyfrifol am benderfyniadau mewn awdurdodau cyhoeddus (megis Prif Weithredwyr, Cadeiryddion ac aelodau Byrddau) yn derbyn cyfarwyddyd digonol ar y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol. Dylai hyn eu paratoi i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gydraddoldeb yn y sefydliad a dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel.

Mae'r blwch (blychau) testun isod yn amlinellu gofynion y rheoliadau ac mae'r rhain yn ymddangos hefyd yn y *Canllaw hanfodol*. Mae'r testun ychwanegol yn y canllaw hwn yn rhoi cyd-destun pellach ynghylch y dyletswyddau penodol.

3. Ymgysylltiad

3.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran ymgysylltiad

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- gynnwys pobl mae'n ystyried eu bod yn gynrychiadol o un neu fwy o'r grwpiau gwarchodedig ac sydd â diddordeb mewn sut mae awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.

Gall corff rhestredig yng Nghymru:

- ymgynghori a chynnwys pobl eraill mae'n ystyried sy'n briodol. Wrth wneud penderfyniad o ran pwy sy'n briodol, rhaid i awdurdod ystyried yr angen i gynnwys neu ymgynghori â phobl o un neu fwy o'r grwpiau gwarchodedig sydd â diddordeb yn y modd mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau, lle mae'n rhesymol o ymarferol i wneud hynny.

Rhaid i'r ymgysylltiad ddigwydd parthed:

- gosod amcanion cydraddoldeb
- paratoi ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- nodi sut y gallai gwaith ac amcanion awdurdod gyfrannu tuag at fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- asesu effaith debygol unrhyw bolisïau neu arferion arfaethedig neu rai sy'n cael eu hadolygu ar grwpiau gwarchodedig.

4. Beth yw ymgysylltiad?

Mae ymgysylltiad yn derm eang, ond i bwrpas y darpariaethau ymgysylltu o fewn y dyletswyddau penodol mae'n eglur ei fod yn cyfeirio at gynnwys rhai pobl (fel gofyniad) ac ymgynghori â rhai pobl (fel bo'n briodol). Efallai nad yw'r gwahaniaeth rhwng cynnwys ac ymgynghori bob amser yn eglur.

Deellir yn aml fod ymgynghori yn ymarferiad ffurfiol a wneir gan sefydliadau i gasglu barn am gynnig arbennig. Mae cynnwys pobl yn nodi cyfranogiad gweithredol y rhanddeiliaid - deialog agored lle mae gan y rhai hynny sy'n cael eu cynnwys ddylanwad amlwg ar y broses o lunio penderfyniadau ac unrhyw benderfyniad sy'n deillio o hynny.

5. Ymgysylltiad effeithiol

Bydd ymgysylltiad effeithiol yn cynnwys proses hir o gydweithio rhwng corff cyhoeddus a phobl gyda diddordeb yn ei waith.

Mae ymgysylltiad effeithiol yn broses:

- wedi ei strwythuro a'i ffocysu yn dda
- yn un y rhoddir adnoddau digonol tuag ati ac yn hygyrch
- yn ddylanwadol ac yn dryloyw
- yn parchu cyfrinachedd.

Sefydlir mewn cyfraith achos[1] lle bo corff cyhoeddus yn ymgynghori, bod yn rhaid iddo gydymffurfio â'r goblygiadau cyffredinol canlynol:

- rhaid i'r ymgynghori fod ar adeg pan fo'r cynigion mewn cam ffurfiannol
- rhaid i'r cynigydd roi rhesymau digonol am ei argymhellion i ganiatáu i rai yr ymgynghorir â nhw eu deall ac ymateb iddynt yn briodol
- rhaid rhoi digon o amser i rai yr ymgynghorir â nhw i allu gwneud ac ystyried ymatebion
- rhaid rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r ymatebion wrth ddod i benderfyniad terfynol ynglŷn â'r penderfyniad.[2]

1 *R v Awdurdod Iechyd Gogledd a Dwyrain Dyfnaint,* ex parte Coughlan [2001] QB 213

2 *R v Bwrdeistref Lambeth yn Llundain,* ex parte N 1996 ELR 299.

6. Pwy i ymgysylltu â nhw

Wrth benderfynu pwy all gynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig ac sydd â diddordeb yn y modd y mae'r corff rhestredig yn cyflawni ei swyddogaethau, efallai y bydd corff rhestredig yn dymuno cynnwys:

- defnyddwyr gwasanaeth blaenorol, cyfredol a phosibl
- staff blaenorol a chyfredol, gan gynnwys grwpiau cydraddoldeb staff
- undebau llafur
- sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cydraddoldeb
- y gymuned ehangach.

Rhaid i gorff rhestredig ystyried yr angen i grisialu barn pobl gydag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig yn uniongyrchol.

Nid yw'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau rhestredig ymgysylltu â phob grŵp gwarchodedig am bob penderfyniad. Bydd angen i gyrff rhestredig benderfynu pa mor berthnasol yw'r polisi neu'r penderfyniad ar gyfer grŵp arbennig a warchodir cyn penderfynu ynghylch a ddylid ymgysylltu â nhw neu sut i wneud hynny.

Bydd angen i gorff rhestredig allu dangos bod ymgysylltu ystyrlon wedi digwydd. Dylai cyrff rhestredig ofalu peidio â gwneud tybiaethau wrth benderfynu ynghylch pwy i ymgysylltu â nhw. Er enghraifft, efallai y bydd pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol yn dymuno cyfrannu cymaint ynghylch addysg neu adfywio ac at gwestiynau am iechyd neu droseddau homoffobig.

Mae cyrff rhestredig yn debygol o fod â gwybodaeth berthnasol o weithgareddau ymgysylltu eraill, er enghraifft, ymgynghoriadau yn ymwneud â strategaeth gymunedol ac arolygon staff a gwasanaeth. Bydd angen i gyrff rhestredig fod â systemau ar gyfer cadw a defnyddio tystiolaeth o weithgareddau ymgysylltu a wneir yn ystod gwahanol gamau yn ôl y dyletswyddau penodol (gosod amcanion, asesu effaith a chasglu gwybodaeth berthnasol).

Efallai bydd yn ddefnyddiol gweithio gydag awdurdodau cyhoeddus eraill i gyflawni gweithgareddau ymgysylltu (er enghraifft mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol). Gall hyn arbed amser ac adnoddau sefydliadau a rhanddeiliaid eraill ac osgoi gorlwytho.

7. Pryd i ymgysylltu

Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff rhestredig ymgysylltu wrth gyflawni rhai gweithgareddau:

- gosod Amcanion Cydraddoldeb
- paratoi ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- asesu sut y gall ei waith a'i weithgareddau gyfrannu at fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- asesu effaith debygol unrhyw bolisïau neu arferion arfaethedig neu rai sy'n cael eu hadolygu ar grwpiau gwarchodedig.

8. Manteision ymgysylltu

Bydd ymgysylltu yn helpu i wella canlyniadau, er enghraifft drwy wneud y canlynol:

- nodi anghenion arbennig, patrymau anfantais a chysylltiadau gwael rhwng grwpiau
- deall y rhesymau am anfantais, cyfraddau cyfranogi isel a chysylltiadau gwael
- creu cynlluniau i fodloni anghenion a goresgyn rhwystrau
- penderfynu ar flaenoriaethau
- dadansoddi effaith cynlluniau a'r grwpiau gwarchodedig
- monitro a gwerthuso cynlluniau, polisïau a rhaglenni.

9. Sut i ymgysylltu

Dylai cyrff rhestredig adolygu eu hystod o ddulliau ymgysylltu i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn effeithiol o ran cyrraedd ystod briodol o grwpiau perthnasol a warchodir.

Cyflwynir dulliau cyffredin o ymgysylltu yn Atodiad A.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi cefnogi dogfen o dan y pennawd 'Egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer sefydliadau yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru'. Gellir canfod y ddogfen hon yn:

www.participationcymru.org.uk/advice-support/national-principles-for-public-engagement-in-wales

Mae'r ddogfen hon yn rhoi set gyffredinol o egwyddorion wedi eu hanelu at sefydliadau yn y gwasanaeth cyhoeddus ar draws pob sector yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn yn ddefnyddiol wrth anelu at gynnig dull cyson a safon uchel ar gyfer ymgysylltiad cyhoeddus ar draws Cymru.

Mae ystod o astudiaethau achos ynglŷn â sut mae dulliau ymgysylltu wedi eu defnyddio gyda gwahanol grwpiau a warchodir ar gael ar wefan y Comisiwn: **www.equalityhumanrights.com**

Atodiad A: Dulliau ymgysylltu

Grŵp Adolygu

Grŵp ffurfiol o gynrychiolwyr yw hwn gydag arbenigedd mewn meysydd allweddol, er enghraifft ynglŷn ag anghenion pobl anabl neu brofiadau grwpiau gwahanol. Gall grŵp adolygu ddarparu arbenigedd parhaus. Bydd hyn yn caniatáu iddo gyfrannu gwybodaeth a thynnu sylw at risgiau, cyfleoedd a dewisiadau ar gyfer gweithredu. Mae aelodau'r grŵp yn aml yn cael eu recriwtio drwy gyfrwng proses recriwtio ffurfiol ac mae'r cyfranogwyr yn aml yn cael eu talu.

Bydd sefydlu grŵp adolygu yn fwyaf addas ar gyfer sefydliadau canolig i fawr sydd â'r adnoddau i roi'r amser a'r adnoddau angenrheidiol i sefydlu a rheoli grŵp. Gall grŵp adolygu fod yn ymwneud â hyn ar sail barhaol ac yn ystod pob un o gamau'r broses o wneud penderfyniadau.

Grwpiau ffocws

Nifer fach o bobl yw'r rhain sy'n cael eu dwyn at ei gilydd gyda chanolwr i drafod pwnc penodol yn fanwl. Mae hwn fel arfer rhwng chwech a 12 o bobl gyda'r nod o gynhyrchu trafodaeth ar bwnc a chasglu gwybodaeth ynglŷn â hoffterau a chredoau'r cyfranogwyr. Defnyddir trafodaeth yn hytrach na holi ac ateb ffurfiol ac mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gael gwybodaeth ddyfnach ynglŷn â barn pobl.

Gellir cynnal grwpiau ffocws trwy gydol eich proses o lunio penderfyniadau. Er enghraifft, gallwch sefydlu grŵp ffocws i nodi themâu a blaenoriaethau allweddol ar ddechrau eich proses o lunio penderfyniadau. Yna gallwch ailgynnull y grŵp ar wahanol adegau trwy gydol eich proses o lunio penderfyniadau i ystyried dewisiadau ar gyfer gweithredu ac i werthuso'r hyn a wneir. Gallwch ddefnyddio grwpiau ffocws i gynnwys grwpiau penodol na fyddant efallai yn ymateb i ddulliau ymgysylltu eraill mwy cyffredinol. Er enghraifft, gallech sefydlu grŵp ffocws sy'n cynnwys pobl hŷn gyda chyflwr iechyd meddwl neu grŵp o rieni anabl.

Grwpiau cynrychioliadol

Corff o bobl yw hwn sy'n cynrychioli buddiannau grŵp arbennig. Mae'r rhain yn amrywio o ran ffurf a maint o grwpiau hunan-eiriolaeth neu grwpiau cefnogi bach lleol gyda strwythur anffurfiol iddynt i sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol mawr gyda strwythurau ffurfiol a staff penodedig. Bydd gweithio gyda grwpiau cynrychioliadol yn eich helpu i gael eu tystiolaeth a'u barn. Gall y grwpiau hyn eich cynghori ynglŷn â sut i gynnwys pobl berthnasol.

Gall grwpiau cynrychioliadol eich helpu i gyflenwi unrhyw weithgaredd ymgysylltu. Er enghraifft, gallech drefnu i grwpiau cynrychioliadol drefnu a chynnal cyfarfodydd neu grwpiau ffocws. Gellid eu comisiynu i gasglu gwybodaeth ac

ysgrifennu adroddiadau ar faterion perthnasol i'ch helpu i lunio penderfyniadau. Dylid ystyried unrhyw ymgysylltiad o'r math hwn fel partneriaeth broffesiynol a gallai tâl fod yn briodol.

Strwythurau sy'n bodoli'n barod

Mae rhai strwythurau cyffredin sy'n bodoli'n barod yn cynnwys cynghorau ysgol, fforymau defnyddwyr gwasanaeth, rhwydweithiau staff, undebau llafur a rhwydweithiau ardal lleol. Gall strwythurau presennol fod yn ddefnyddiol pan mae amser yn brin ac i helpu i osgoi rhoi gormod o bwysau ar y rhanddeiliaid. Ond mae'n bwysig gwneud yn siŵr fod yr aelodaeth yn berthnasol i'r mater sy'n cael ei adolygu h.y. y ceir cyfranogiad digonol gan bobl yr effeithir arnynt.

Ymgysylltiad ar-lein

Mae dulliau ar-lein yn cynnwys fforymau ar-lein, rhwydweithiau cymdeithasol a thrafodaethau byw gyda hwylusydd. Gallai ymgysylltu ar-lein fod yn ddefnyddiol oherwydd mae'n hawdd ac yn gymharol rad cynnwys ystod eang o gyfranogwyr. Mae'n ffordd dda o gynnwys y rhai hynny a allai fod yn well ganddynt gael mwy o breifatrwydd. Gallwch wahodd grwpiau neu unigolion arbennig i gymryd rhan.

Ystyriwch sut i wneud pobl yn ymwybodol o'ch ymgysylltiad ar-lein a gofalwch ei fod yn hygyrch ac yn hawdd i bobl fynd ato. Er enghraifft, gellid bod ag adran benodol ar y safle ar gyfer defnyddwyr hŷn. Y ffordd orau o'i ddefnyddio yw fel un o nifer o ddulliau ymgysylltu ar bolisi arbennig, yn hytrach nag ar ei ben ei hun, oherwydd nid oes gan bawb fynediad at dechnoleg na'r gallu i'w ddefnyddio yn effeithiol. Amcangyfrifir nad oes modd i oddeutu traean poblogaeth Cymru ddefnyddio cyfrifiaduron.

Cynhadledd chwilio yn y dyfodol

Digwyddiad i randdeiliaid ddod at ei gilydd yw hwn i ystyried penderfyniad neu bolisi yng nghyd-destun eu blaenoriaethau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. I ddefnyddio'r dull hwn yn effeithiol, dylech anelu at gynnwys pobl sydd â diddordeb yn neu sy'n cael eu heffeithio gan eich gwaith, yn ogystal â phobl sydd â dylanwad yn eich cymuned.

Mae rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn trafodaeth am eu blaenoriaethau, eu barn, eu cyrchnodau a'u dyheadau fel y maent yn ymwneud â'r polisi perthnasol ac mae'r drafodaeth hon yn cael ei safoni. Un o'r nodau allweddol yw i'r cyfranogwyr ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer y dyfodol drwy drafodaeth ac ystyriaeth. Mae'r dull hwn yn ddefnyddiol os dymunwch gasglu a defnyddio gwybodaeth am safbwyntiau a blaenoriaethau eich prif randdeiliaid.

Mae'n helpu cyfranogwyr i ddeall agendau pobl eraill. Gallai hyn helpu'r grŵp i ddechrau nodi diddordebau a rennir ac i ddatblygu nodau cyffredin.

Caffi Sgwrsio

Mae'r dechneg hon yn cydnabod fod yn well gan rai pobl gymryd rhan mewn ffordd lai ffurfiol. Mewn caffi sgwrsio, mae canolwr yn trefnu'r digwyddiad ac anogir y rhai sy'n cymryd rhan i rannu'n grwpiau llai ar gyfer trafodaethau anffurfiol ar ystod o bynciau. Gall y cyfranogwyr fynd i mewn neu allan o'r grwpiau yn ôl eu dewis. Fel arfer maent yn digwydd mewn mannau cyfarwydd lle mae rhai sy'n cymryd rhan yn teimlo'n fwy cysurus, er enghraifft, llyfrgelloedd, siopau llyfrau neu gaffis.

Ymholiad gwerthfawrogol

Mae'r dull hwn yn defnyddio cwestiynau y bwriedir iddynt annog pobl i siarad am eu profiadau am bwnc arbennig. Mae'n anelu at annog cyfranogwyr i ganolbwyntio ar ddod o hyd i atebion i broblemau a'u profiadau ynglŷn â 'beth sy'n gweithio'. Gall fod yn ymrymusol, oherwydd mae'n rhoi hyder i bobl feddwl yn eang a chymryd risg. Gall helpu i greu cysylltiadau a gwella dealltwriaeth. Gall fod yn ddefnyddiol i annog ysgogiad, yn arbennig os yw'r cyfranogwyr yn teimlo'n amharod i dderbyn newid neu eu bod yn cael eu beirniadu.

Rheithgorau dinasyddion

Mae rheithgor dinasyddion yn ffordd o strwythuro digwyddiad sy'n cael ei fodelu ar y syniad o reithgor troseddol. Dewisir tua 10 i 20 o bobl i gymryd rhan a rhoddir gwybodaeth iddynt gan 'dystion' arbenigol. Gallai hon fod yn wybodaeth am bolisi neu ystod o ddewisiadau i weithredu arnynt. Gallai'r broses hon gymryd ychydig ddyddiau, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael a chymhlethdod y pynciau. Yna mae'r rheithgor yn ystyried yr wybodaeth ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â'r pwyntiau allweddol.

Er enghraifft, gallai'r rheithgor argymell blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu neu alw am fwy o waith cefndir ynghylch meysydd arbennig. Nid yw rheithgorau dinasyddion yn cynnwys nifer fawr o bobl ac ni fyddant yn addas i bob sefydliad ac i bob polisi. Efallai y bydd angen adnoddau sylweddol ar eu cyfer, fel pobl brofiadol o'r tu allan neu arbenigwyr allanol i fod yn bresennol a chyflwyno gwybodaeth. Fe'u defnyddir orau gan sefydliadau sydd â digon o amser ac adnoddau ariannol i 'brofi' ymwybyddiaeth a gwahanol ddewisiadau ar gyfer gweithredu ynglŷn â phenderfyniadau cynhennus a phenderfyniadau sy'n mynd i gael effeithiau mawr.

Man agored

Mae man agored yn ddull o ddod â phobl at ei gilydd ynghylch cwestiwn neu dasg benodol a rhoi cyfrifoldeb iddynt am yr agenda. Mae hwylusydd yn nodi'r cwestiwn sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn cynnig proses syml ar gyfer y cyfranogwyr i ddechrau'r trafodaethau. Mae'n gweithio orau pan mae'r gwaith yn gymhleth, y syniadau yn amrywiol a phan fo'r cyfranogwyr yn awyddus i ddod o hyd i ateb. Fe'i cynhelir fel arfer dros gyfnod sy'n amrywio o hanner diwrnod i ddau ddiwrnod.

Cynhadledd dinasyddion

Cyfarfod mawr yw hwn lle mae'r cyfranogwyr yn treulio amser yn gweithio mewn grwpiau bychain a lle mae hwylusydd yn casglu syniadau'r cyfranogwyr ac yn pleidleisio ar gyfrifiadur. Anfonir yr wybodaeth o wahanol grwpiau i fan canolog a'i droi yn themâu, y gall y cyfranogwyr i gyd roi sylw arnynt neu bleidleisio arnynt. Mae'n ddefnyddiol oherwydd mae'n cyfuno trafodaethau ar raddfa fechan gyda'r gwaith o lunio penderfyniadau mewn grwpiau mawr. Mae'r dull hwn yn defnyddio llawer o adnoddau a bydd yn fwyaf addas ar gyfer sefydliadau mwy sy'n ystyried penderfyniadau ar bynciau a fydd yn cael effaith eang a dwfn ar eu cymunedau. Gellir ei ddefnyddio i ystyried dewisiadau polisi a helpu i osod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Ymgysylltu i werthuso

Yn ychwanegol at y dulliau a restrwyd yn barod, gallai'r canlynol fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth fonitro a gwerthuso gwaith.

Paneli defnyddwyr

Mae'r rhain yn gyfarfodydd rheolaidd o ddefnyddwyr gwasanaeth i ystyried a thrafod ansawdd gwasanaeth neu bynciau cysylltiedig eraill, er enghraifft gwelliannau posibl i arfer cyfredol. Gallant eich helpu i nodi pryderon a blaenoriaethau defnyddwyr gwasanaeth a gallant arwain at nodi problemau neu syniadau ar gyfer gwelliannau yn gynnar. Maent yn ffordd o gael barn defnyddwyr am eu profiadau a'u disgwyliadau ynglŷn â gwasanaethau. Gallwch eu defnyddio i brofi ymateb defnyddwyr i newidiadau ac argymhellion ac i ddod o hyd i a chynhyrchu syniadau ar gyfer gwelliannau.

Nid yw hon yn rhestr holl gynhwysol o bell ffordd. Efallai yr hoffech gysylltu â sefydliadau fel Cyfranogiad Cymru neu Involve.

www.participationcymru.org.uk
www.Involve.org.uk

Cysylltwch â ni

Cymru

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Llawr 3, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 8810

Ffôn testun
0845 604 8820

Ffacs
0845 604 8830

Lloegr

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Arndale House, Arndale Centre, Manceinion M4 3AQ

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 6610

Ffôn testun
0845 604 6620

Ffacs
0845 604 6630

Yr Alban

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

The Optima Building, 58 Robertson Street, Glasgow G2 8DU

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn:
0845 604 55 10

Ffôn testun
0845 604 5520

Ffacs
0845 604 5530

Amserau agor y llinell gymorth:

Dydd Llun i ddydd Gwener: 8am–6pm

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â'r llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Gallwch lwytho pob cyhoeddiad i lawr hefyd a'u harchebu mewn amrywiaeth bo fformatau o'n gwefan:

www.equalityhumanrights.com

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ebrill 2011
ISBN 978 1 84206 417 7

Gwaith celf gan Epigram
www.epigram.co.uk

www.equalityhumanrights.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission